Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Canlyniad llifogydd

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn amlygu'r pwysigrwydd o reoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, gan ganolbwyntio ar lifogydd a chanlyniadau posibl llifogydd ar gymunedau lleol.




Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ymhob agwedd ar ei waith. Mae hyn yn cynnwys gofalu am yr aer, y tir, y dŵr, y bywyd gwyllt, y planhigion a'r pridd er mwyn gwella lles Cymru a rhoi gwell dyfodol i bawb.

## Amcanion

**Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn bydd y dysgwyr yn gallu:**

- **Trosglwyddo neges allweddol CNC am lifddwr - Peidiwch mentro i'r llifddwr**
- **Adnabod gwahanol aelodau o'r gymuned a allai gael eu heffeithio gan lifogydd**
- **Trafod ac ysgrifennu geiriau sy'n disgrifio sut y gall gwahanol aelodau o'r gymuned deimlo pe bai llifogydd yn difrodi eu tai**
- **Cyflwyno adroddiad newyddion byr ar y senario a roddir iddynt**

## Yr amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd

30munud

## Lleoliad

Unrhyw le

addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm

### CA2

### ABCh

**Dinasyddiaeth weithgar**
Gwerth teulu a ffrindiau fel ffynhonnell o gymorth i'w gilydd

**Iechyd a lles emosiynol**
Deall pwysigrwydd diogelwch personol

**Gweithio gydag eraill**
Uniaethu gyda phrofiadau a theimladau pobl eraill

### CA3

### ABCh

**Dinasyddiaeth weithgar**
Deall materion yn ymwneud â mynediad o fewn y gymuned a gallu gwahaniaethu rhwng gwahanol lefelau o anghenion dysgu ac anabledd
Deall materion lleol a byd-eang cyfoes

**Iechyd a lles emosiynol**
Arddangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach

**Gweithio gydag eraill**
Uniaethu gyda phrofiadau, teimladau a gweithredoedd pobl eraill

**Datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang**
Datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb personol tuag at faterion lleol a byd-eang

## Offer ac adnoddau

- **Cardiau Trafod: Canlyniad llifogydd**
- **Llyfryn: Beth i'w wneud cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd**

**Gallwch lawrlwytho'r rhain o'r dudalen yma:**
https://naturalresources.wales/flooding/what-to-do-before-a-flood/?lang=cy

## Beth i'w wneud

- Esboniwch wrth y grŵp y gallai llifogydd effeithio ar gymaint ag 1 o bob 6 eiddo yng Nghymru, gan gynnwys tai, busnesau, ysbytai ac ysgolion. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru dimau ymroddedig i helpu pobl i baratoi ar gyfer llifogydd ac i gefnogi'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan lifogydd.

- Gofynnwch i'r dysgwyr a ydyn nhw neu rywun maen nhw'n yn ei adnabod erioed wedi cael profiad o lifogydd? Os ydyw'n berthnasol gofynnwch i'r grŵp drafod y canlynol:
  - Beth ddigwyddodd – cyn, yn ystod ac ar ôl?
  - Sut wnaethon nhw ddelio â'r llifogydd?
  - Sut y cawsant eu heffeithio?
  - Sut oedden nhw'n teimlo?
  - Pa effaith barhaus wnaeth y llifogydd ei gael ar eu bywydau?
  - A oedden nhw'n gallu goroesi effeithiau'r llifogydd - os felly, pa mor hir wnaeth hyn ei gymryd?

- Esboniwch wrth y grŵp fod llifogydd yn effeithio ar wahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd.

- Gofynnwch i'r dysgwyr:
  - CA2 – i ystyried unrhyw un y maen nhw'n meddwl y gallai ei chael hi'n arbennig o anodd i ddelio â llifogydd.
  - CA3 - i feddwl am y gwahanol grwpiau y maen nhw'n eu hystyried yn arbennig o agored i niwed yn y gymuned leol a thrafod yr heriau y gallent eu hwynebu os ceir llifogydd.

- Rhannwch yn grwpiau bach. Rhowch gerdyn trafod *Canlyniad Llifogydd* i bob grŵp.

  Gofynnwch iddyn nhw roi eu hunain yn sefyllfa'r person sy'n cael ei ddarlunio, gan drafod y pwyntiau ar y cerdyn.

  Anogwch nhw i nodi geiriau penodol sy'n cynrychioli orau'r teimladau a brofir gan y rhai sy'n cael eu heffeithio gan lifogydd.

- Rhoi adborth i'r dosbarth trwy ddarllen y senario yna esbonio teimladau ac anawsterau penodol y person sydd ar y cardiau.

- Mae modd i bob grŵp nawr baratoi adroddiad newyddion byr ar eu senario gan enwebu un person i fod yn ohebydd ac un neu ddau o bobl eraill i fod yn gymeriadau.

  Gofynnwch i bob grŵp ysgrifennu 3 cwestiwn priodol y gallai'r gohebydd ei ofyn a thrafod yr atebion y gellid eu rhoi ar sail eu trafodaeth gynharach. Yna gellir ei berfformio i'r dosbarth fel cyfweliad byr.

  * Dewisol: Defnyddiwch bennawd llifogydd lleol i osod golygfa'r llifogydd a chael rhywun i gyflwyno'r stori cyn i'r grwpiau unigol berfformio.

## Addasu ar gyfer anghenion/galluoedd arbennig

Llai abl

- Trafodwch un neu ddau o'r cardiau fel grŵp mawr, i gael pawb i fwydo syniadau.
- Dewiswch un cerdyn - gofynnwch sut y maen nhw'n teimlo a beth y gallent ei wneud i helpu'r person hwnnw.

Mwy abl


- Trafodwch sut y byddai modd helpu gwahanol bobl sy'n agored i niwed yn y gymuned.
- Dylunio cynllun llifogydd personol neu gymunedol.

## Gweithgaredd dilynol/estynedig

- Rhowch gynnig ar y gweithgaredd *Effeithiau llifogydd*

## Gwybodaeth Ychwanegol

Am fwy o wybodaeth ewch i wefan CNC:
https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=cy




Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall, er enghraifft, mewn print bras neu mewn iaith arall, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000
www.cyfoethnaturiol.cymru

FSC www.fsc.org FSC® C-115912
Arwydd o Goedwigaeth Gyfrifol
The mark of responsible forestry

Mae coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®

Welsh Government woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®

FSC www.fsc.org RECYCLED Paper made from recycled material FSC® C008921

Argraffwyd ar bapur Revive Offset wedi'i ailgylchu 100%

Printed on Revive offset 100% recycled paper

NRWRC000